

Bil Deddfwriaeth (Cymru)

[DRAFFT]

CYNNWYS

RHAN 1

HYGYRCHEDD CYFRAITH CYMRU

- 1 Dyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad
2 Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

RHAN 2

DEHONGLI DEDDFWRIAETH CYMRU

Cymhwyso'r Rhan a diffiniadau o dermau allweddol

- 3 Cymhwyso'r Rhan
4 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Rhan

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn deddfwriaeth

- 5 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion
6 Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall
7 Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw
8 Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.
9 Cyfeiriadau at gyfnodau o amser
10 Cyfeiriadau at amser o'r dydd
11 Cyfeiriadau at y Sofren
12 Mesur pellter

Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

- 13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig
14 Y diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno

Pwerau a dyletswyddau

- 15 Parhad pwerau a dyletswyddau
16 Arfer pŵer sydd eto i ddod i rym neu gyflawni dyletswydd nad yw eto mewn grym
17 Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth
18 Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth
19 Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad

Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

- 20 Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

Cyfeiriadau mewn ddeddfwriaeth at deddfwriaeth arall

- 21 Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfwriaeth

- 22 Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd
23 Cyfeiriadau at offerynnau'r UE
24 Argraffiadau o Ddeddfau Cynulliad neu o Fesurau Cynulliad y cyfeirir atynt
25 Argraffiadau o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt
Dyblygu troseddau
- 26 Troseddau dyblyg
Cymhwyso i'r Goron
- 27 Cymhwyso Deddfau Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron
Deddfwriaeth yn dod i rym
- 28 Amser dod i rym
29 Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym
30 Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn deddfwriaeth i rym
Diddymu, dirymu ac ailddeddfu deddfwriaeth
- 31 Nid yw diddymiadau na dirymyadau yn adfer pethau sydd wedi eu diddymu nac sydd
wedi eu dirymu
32 Arbedion cyffredinol
33 Ailddeddfu
34 Cyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu
Darpariaeth atodol
- 35 Dehongli'r Rhan
36 Deddf Dehongli 1978

RHAN 3

DARPARIAETH AMRYWIOL

- 37 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon
38 Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon
39 Y Ddeddf hon yn dod i rym
40 Enw byr

Atodlen 1 – Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

Atodlen 2 – Diwygio Deddf Dehongli 1978

Bil Deddfwriaeth (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu hygyrchedd cyfraith Cymru; i ddarparu ar gyfer dehongli deddfwriaeth Cymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

RHAN 1

HYGYRCHEDD CYFRAITH CYMRU

1 Dyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad

- Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad.
- At ddibenion y Rhan hon, ystyr "cyfraith Cymru" yw –

- Deddfau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Mesurau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,
- is-offerynnau Cymreig (o fewn ystyr adran 4(4)), ac
- unrhyw ddeddfiad arall, neu unrhyw reol gyfreithiol, i'r graddau y mae'n ymwneud â phwnc y gellid darparu ar ei gyfer mewn Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2 Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

- Rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio rhaglen sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
- Rhaid llunio rhaglen ar gyfer pob un o dymhorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Rhaid i'r rhaglen gynnwys weithgareddau arfaethedig at ddiben –
 - cyfrannu at broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru;
 - cynnal ffurf cyfraith Cymru (wedi iddi gael ei godeiddio);
 - hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- Caiff y rhaglen hefyd gynnwys weithgareddau arfaethedig –
 - at ddiben hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru,
 - y gellir eu cyflawni drwy gydweithio â Chomisiwn y Gyfraith (yn unol â Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 (*Law Commissions Act 1965 (c. 22)*)), ac
 - o unrhyw fath arall y mae Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried ei fod yn briodol.
- Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol osod copi o'r rhaglen gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 6 mis i benodi Prif Weinidog ar ôl etholiad cyffredinol a gynhelir o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (*Government of Wales Act 2006 (c. 32)*).

- (6) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio'r rhaglen ar unrhyw adeg, ac os gwnânt hynny rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol osod copi o'r rhaglen ddiwygiedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- (7) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wneir o dan y rhaglen.

RHAN 2

DEHONGLI DEDDFWRIAETH CYMRU

Cymhwyso'r Rhan a diffiniadau o dermau allweddol

3 Cymhwyso'r Rhan

- (1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i—
- (a) Deddfau Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym neu ar ôl y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym,
 - (b) is-offerynnau Cymreig a wneir ar y diwrnod hwnnw neu ar ôl y diwrnod hwnnw, ac
 - (c) y Ddeddf hon.
- (2) Ystyr cyfeiriadau yn y Rhan hon at Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yw (oni ddarperir fel arall) Deddf neu offeryn y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi neu iddo yn rhinwedd is-adran (1).
- (3) Nid yw darpariaeth yn y Rhan hon yn gymwys i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu ddarpariaeth mewn Deddf neu offeryn o'r fath, i'r graddau—
- (a) y mae'r Ddeddf neu'r offeryn yn darparu nad yw darpariaeth yn y Rhan hon yn gymwys, neu
 - (b) y mae cyd-destun y Ddeddf neu'r offeryn, neu'r ddarpariaeth yn y Ddeddf neu'r offeryn, yn ei gwneud yn ofynnol nad yw darpariaeth yn y Rhan hon yn gymwys.
- (4) Nid yw is-adran (3)(b) yn gymwys mewn perthynas â chymhwyso—
- (a) adran 10 (cyfeiriadau at amser o'r dydd),
 - (b) adran 27 (mae Deddfau Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig yn rhwymo'r Goron), ac
 - (c) adran 31 (nid yw diddymiaidau na dirymiaidau yn adfer deddfiaidau a ddiddymwyd neu a ddirymwyd eisoes).

4 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y Rhan

- (1) Mae'r adran hon yn diffinio geiriau ac ymadroddion allweddol at ddibenion y Rhan hon.
- (2) Mae cyfeiriadau at ddeddfiad yn gyfeiriadau at ddeddfiad sydd wedi gynnwys mewn—
- (a) Deddf Cynulliad;
 - (b) Mesur Cynulliad;
 - (c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;

(d) is-ddeddfwriaeth.

(3) Ystyr “is-ddeddfwriaeth” yw rheoliadau, gorchmynion, rheolau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wneir neu sydd i’w gwneud o dan (onid ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb) –

(a) Deddf Cynulliad;

(b) Mesur Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

(4) Ystyr “is-offeryn Cymreig” yw offeryn (pa un a yw’r offeryn hwnnw yn offeryn statudol ai peidio) sy’n is-ddeddfwriaeth –

(a) a wneir o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad (gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall);

(b) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig gan Weinidogion Cymru, ac eithrio is-ddeddfwriaeth a wneir ar y cyd ag un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw berson arall.

(5) Yn yr adran hon –

mae “Deddf Cynulliad” (“*Assembly Act*”) yn cynnwys Deddf gan y Cynulliad nad yw’r Rhan hon yn gymwys iddi;

ystyr “Gweinidog y Goron” (“*Minister of the Crown*”) yw deiliad swydd yn Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig;

mae “Gweinidogion Cymru” (“*Welsh Ministers*”) yn cynnwys unrhyw aelod o Lywodraeth Cymru y rhoddwyd pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth iddo neu y gosodwyd dyletswydd arno i wneud is-ddeddfwriaeth.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn deddfwriaeth

5 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

(1) Mae geiriau ac ymadroddion a restrir yn Atodlen 1 i’w dehongli yn unol â’r Atodlen honno pan fônt yn ymddangos mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 1 er mwyn –

(a) mewnosod diffiniadau newydd o eiriau neu ymadroddion;

(b) dileu diffiniadau o eiriau neu ymadroddion;

(c) diwygio diffiniadau o eiriau neu ymadroddion.

6 Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig –

(a) mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog, a

(b) mae geiriau yn y ffurf luosog yn cynnwys y ffurf unigol.

7 Nid yw geiriau sy’n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i’r rhywedd hwnnw

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, nid yw geiriau sy’n dynodi rhywedd i’w darllen fel pe baent yn gyfyngedig i’r rhywedd hwnnw.

8 Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.

Pan fo deddfiad yn rhoi ystyr i air neu ymadrodd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae rhannau eraill o ymadrodd a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol ar y gair neu'r ymadrodd i'w dehongli yn unol â'r ystyr honno.

5 9 Cyfeiriadau at gyfnodau o amser

Pan fo cyfnod o amser yn cael ei ddisgrifio mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig –

- (a) fel cyfnod sy'n dechrau neu'n gorffen ar ddiwrnod penodol, neu
- (b) fel cyfnod sydd i'w gyfrifo o ddiwrnod penodol neu i ddiwrnod penodol,

10 cynhwysir y diwrnod hwnnw yn y cyfnod.

10 Cyfeiriadau at amser o'r dydd

Mae cyfeiriad at amser o'r dydd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, oni ddarperir fel arall, yn gyfeiriad at amser safonol Greenwich; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 3 o Ddeddf Amser Haf 1972 (*Summer Time Act 1972 (c. 6)*) (pwyntiau o amser yn ystod amser haf).

15

11 Cyfeiriadau at y Sofren

Mae cyfeiriad at y Sofren mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Sofren ar y pryd.

12 Mesur pellter

20

Wrth fesur unrhyw bellter at ddibenion Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae'r pellter hwnnw i'w fesur mewn llinell syth ar blân llorwedol.

Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

25

(1) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i ddogfen gael ei chyflwyno i berson drwy'r post (pa un a ddefnyddir y geiriau "cyflwyno", "rhoi", "anfon" neu unrhyw eiriau eraill), mae'r ddogfen wedi ei chyflwyno drwy gyfeirio'r llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn briodol, talu ymlaen llaw am ei bostio, a'i bostio at y person hwnnw.

30

(2) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i ddogfen gael ei chyflwyno i berson yn electronig (pa un a ddefnyddir y geiriau "cyflwyno", "rhoi", "anfon" neu unrhyw eiriau eraill), mae'r ddogfen wedi ei chyflwyno –

- (a) yn achos cyflwyno drwy e-bost, drwy gyfeirio'r e-bost yn briodol ac anfon at y person hwnnw e-bost –

35

- (i) sy'n ffurfio'r ddogfen neu'n cynnwys y ddogfen, neu
- (ii) y mae'r ddogfen ynghlwm wrtho ar ffurf electronig y gall y person hwnnw ei chyrru;

- (b) yn achos cyflwyno dogfen drwy ddefnyddio dull arall o gyfathrebu electronig, drwy anfon y ddogfen i'r person y caiff ei chyflwyno iddo ar ffurf electronig y gall y person hwnnw ei chyrchu ac y mae modd i'r person hwnnw ei chadw.

14 Y diwrnod pan ferner bod dogfen wedi ei chyflwyno

Pan fo dogfen, o dan Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, yn cael ei chyflwyno drwy'r post neu'n electronig, bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno, oni phrofir y gwrthwyneb –

- (a) yn achos dogfen a gyflwynir drwy'r post, ar y diwrnod y byddai'r llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post;
- (b) yn achos dogfen a gyflwynir yn electronig, ar y diwrnod yr anfonir y cyfathrebiad electronig.

Pwerau a dyletswyddau

15 Parhad pwerau a dyletswyddau

- (1) Caniateir arfer pŵer a roddir gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ar fwy nag un achlysur ac o bryd i'w gilydd.
- (2) Mae dyletswydd a osodir gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn ddyletswydd barhaus a rhaid ei chyflawni yn ôl y gofyn.
- (3) Pan roddir pŵer gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i ddeiliad swydd neu pan osodir dyletswydd ar ddeiliad swydd gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae i'w arfer neu i'w chyflawni gan ddeiliad y swydd am y tro.

16 Arfer pŵer sydd eto i ddod i rym neu gyflawni dyletswydd nad yw eto mewn grym

- (1) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at bŵer neu ddyletswydd yn gyfeiriadau at bŵer neu ddyletswydd –
- (a) a roddir neu a osodir gan ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad a ddaw i rym –
- (i) ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau, a
- (ii) mwy nag un diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol;
- (b) a roddir neu a osodir gan ddarpariaeth mewn is-offeryn Cymreig na ddaw i rym unwaith y caiff yr offeryn ei wneud.
- (2) Caniateir arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd (a chaiff unrhyw offeryn a wneir o dan y pŵer neu'r ddyletswydd ddod i rym) yn ystod y cyfnod –
- (a) sy'n dechrau pan gaiff y Ddeddf Cynulliad y Cydsyniad Brenhinol neu pan wneir yr is-offeryn Cymreig, a
- (b) sy'n gorffen pan ddaw'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd i rym.
- (3) Ond yn ystod y cyfnod hwnnw ni chaniateir arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn –
- (a) i'r Ddeddf Cynulliad neu i'r is-offeryn Cymreig sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd, neu

(b) i ddarpariaeth yn y Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw,
ar yr adeg neu ar ôl yr adeg y daw'r Ddeddf, yr offeryn neu'r ddarpariaeth i rym.

(4) Pan fo darpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig nad yw mewn grym –

(a) yn gysylltiedig â phŵer a arferir neu ddyletswydd a gyflawnir neu'n atodol at bŵer a arferir neu ddyletswydd a gyflawnir yn unol â'r adran hon, a

(b) yn dod i rym ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau,

mae'r ddarpariaeth honno i'w thrin fel pe bai mewn grym i'r graddau y mae'n angenrheidiol i arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd yn unol â'r adran hon.

(5) Mae arfer pŵer neu gyflawni dyletswydd yn unol â'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf Cynulliad neu'r is-offeryn Cymreig sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd (pa un a yw'r ddarpariaeth sy'n gosod yr amod neu'r cyfyngiad mewn grym ai peidio).

17 Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth

(1) Caniateir arfer pŵer neu gyflawni dyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir neu a osodir gan Ddeddf Cynulliad fel bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth adolygu neu ddarpariaeth machlud (neu'r ddwy).

(2) Yn yr adran hon –

(a) ystyr "darpariaeth adolygu" yw darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y ddeddfwriaeth i adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth honno, neu effeithiolrwydd unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, o fewn cyfnod penodedig neu ar ddiwedd cyfnod penodedig;

(b) ystyr "darpariaeth machlud" yw darpariaeth i'r is-ddeddfwriaeth, neu unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, beidio â chael effaith ar ddiwedd diwrnod penodedig neu gyfnod penodedig;

(c) ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth.

(3) Caiff darpariaeth adolygu, ymhlith pethau eraill, wneud adolygiad yn ofynnol i ystyried a yw'r amcanion yr oedd yr is-ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddi yn dal i fod yn briodol ac, os felly, a fyddai modd eu cyflawni mewn ffordd arall.

(4) Caiff is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth adolygu neu ddarpariaeth machlud ddarparu i'r ddarpariaeth fod yn gymwys yn gyffredinol neu'n unig mewn perthynas â darpariaethau penodedig yr is-ddeddfwriaeth neu achosion neu amgylchiadau penodedig.

(5) Caiff is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth adolygu neu ddarpariaeth machlud wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth atodol neu arbedion mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth machlud.

18 Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth

(1) Caniateir arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir gan Ddeddf Cynulliad i ddiwygio, dirymu, neu ailddeddfu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir odani.

- (2) Mae dyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth a osodir gan Ddeddf Cynulliad yn cynnwys pŵer (sy'n arferadwy yn yr un ffordd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau â'r ddyletswydd) y caniateir ei arfer i ddiwygio, ailddeddfu, neu ddirymu a disodli, unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir wrth gyflawni'r ddyletswydd (neu wrth arfer y pŵer a ddarperir gan yr is-adran hon).

19 Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad

Nid yw diwygio, dirymu neu ailddeddfu is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad yn cyfyngu nac yn effeithio fel arall ar y pŵer neu'r ddyletswydd y gwnaed yr is-ddeddfwriaeth odano neu odani.

Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

20 Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

- (1) Caniateir arfer pŵer a roddir gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i roi cyfarwyddydau i amrywio unrhyw gyfarwyddydau neu dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddydau a roddir odani neu odano.
- (2) Mae dyletswydd i roi cyfarwyddydau a osodir gan Ddeddf Cynulliad o'r fath neu gan offeryn o'r fath yn cynnwys pŵer (sy'n arferadwy yn yr un ffordd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau â'r ddyletswydd) i amrywio neu amnewid unrhyw gyfarwyddydau a roddir wrth gyflawni'r ddyletswydd.

Cyfeiriadau mewn ddeddfwriaeth at deddfwriaeth arall

21 Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfwriaeth

- (1) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig –
- yn disgrifio rhaniad o ddeddfiad neu'n cyfeirio at raniad o ddeddfiad, a
 - yn gwneud hynny drwy gyfeirio at eiriau, adrannau neu rannau eraill o'r deddfiad y mae'r rhaniad yn ymestyn oddi wrthynt neu atynt (neu oddi wrthynt ac atynt),
- mae'r rhaniad yn cynnwys y geiriau, yr adrannau neu'r rhannau eraill y cyfeirir atynt.
- (2) Yn is-adran (1) mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi ei gynnwys yn un o'r canlynol, neu wedi ei gynnwys mewn deddfiad mewn offeryn a wneir o dan y canlynol –
- Deddf gan Senedd yr Alban;
 - deddfwriaeth Gogledd Iwerddon.

22 Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn gyfeiriadau at ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd

- (1) Pan fo –
- Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ("A") yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad ("B"), a
 - cyn i A ddod i rym, neu pan ddaw A i rym, neu ar ôl i A ddod i rym, mae B wedi ei ddiwygio, ei estyn neu ei gymhwyso gan ddeddfiad arall (gan gynnwys A),

mae'r cyfeiriad yn A at B yn gyfeiriad at B fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i cymhwyswyd.

- (2) Yn is-adran (1) mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sydd wedi ei gynnwys yn un o'r canlynol, neu ar ffurf deddfiad mewn offeryn a wneir o dan y canlynol—

- (a) Deddf gan Senedd yr Alban;
 (b) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon.

23 Cyfeiriadau at offerynnau'r UE

- (1) Pan fo—

- (a) Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cynnwys cyfeiriad at offeryn gan yr UE, a
 (b) yr offeryn gan yr UE wedi ei ddiwygio, ei estyn neu ei gymhwyso gan offeryn arall gan yr UE cyn y diwrnod y mae'r Ddeddf Cynulliad yn cael ei phasio neu y mae'r is-offeryn Cymreig yn cael ei wneud,

mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr offeryn gan yr UE fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i cymhwyswyd.

24 Argraffiadau o Ddeddfau Cynulliad neu o Fesurau Cynulliad y cyfeirir atynt

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cynnwys cyfeiriad at—

- (a) Deddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, neu
 (b) darpariaeth neu grŵp o ddarpariaethau mewn Deddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad.

- (2) Mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at y copi ardystiedig o'r Ddeddf Cynulliad, neu'r Mesur Cynulliad fel y'i cymeradwywyd—

- (a) cyhoeddwyd gan Argraffydd y Frenhines, neu
 (b) cyhoeddwyd o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi.

- (3) Ym mharagraffau (a) a (b) o is-adran (1), ac yn is-adran (2), mae'r cyfeiriadau at Ddeddf Cynulliad yn cynnwys Deddf Cynulliad nad yw'r Rhan hon yn gymwys iddi.

25 Argraffiadau o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cynnwys cyfeiriad at—

- (a) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, yn ôl blwyddyn, statud, sesiwn neu bennod, neu
 (b) darpariaeth neu grŵp o ddarpariaethau mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

- (2) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at y Ddeddf fel y'i deddfwyd—

- (a) fel y'i cyhoeddwyd gan Argraffydd y Frenhines, neu
 (b) fel y'i cyhoeddwyd o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi.

- (3) Pan fo'r cyfeiriad a grybwyllir yn is-adran (1) yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys mewn argraffiad diwygiedig o'r statudau a argreffir drwy awdurdod, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw.
- (4) Pan fo'r cyfeiriad a grybwyllir yn is-adran (1) yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys yn yr argraffiad a luniwyd o dan gyfarwyddyd y Comisiwn Cofnodion a phan na fo is-adran (3) yn gymwys i'r Ddeddf, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw.

Dyblygu troseddau

26 Troseddau dyblyg

- (1) Pan fo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ("A") a hefyd yn drosedd –
- (a) o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ac eithrio A,
 - (b) yn ôl y gyfraith gyffredin, neu
 - (c) o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ac eithrio A ac yn ôl y gyfraith gyffredin,

mae person yn agored i'w erlyn a'i gosbi o dan y naill neu'r llall neu unrhyw un o'r Deddfau neu'r offerynnau hynny neu yn ôl y gyfraith gyffredin, ond ni ellir ei gosbi fwy nag unwaith am yr un drosedd.

- (2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys pan fo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf Cynulliad neu o dan is-offeryn Cymreig ac o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae adran 18 o Ddeddf Dehongli 1978 (*Interpretation Act 1978 (c. 30)*) yn gymwys iddi (pa un a yw'r weithred neu'r anweithred hefyd yn drosedd yn ôl y gyfraith gyffredin).

Cymhwyso i'r Goron

27 Cymhwyso Deddfau Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig i'r Goron

Mae Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn rhwymo'r Goron, ac eithrio i'r graddau y mae'r Ddeddf neu'r offeryn yn darparu'n benodol fel arall.

Deddfwriaeth yn dod i rym

28 Amser dod i rym

Pan fo –

- (a) Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu
- (b) darpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig,

yn dod i rym ar ddiwrnod y darperir ar ei gyfer mewn deddfiad (ac eithrio adran 29), daw'r Ddeddf, yr offeryn neu'r ddarpariaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw.

29 Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym

Pan na fo darpariaeth mewn deddfiad (ac eithrio'r adran hon) bod Deddf Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn dod i rym, daw'r Ddeddf neu'r ddarpariaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

30 Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn deddfwriaeth i rym

Caiff gorchmyn neu reoliadau sy'n penodi'r diwrnod y daw'r canlynol i rym—

- (a) Deddf Cynulliad, neu
- (b) darpariaeth mewn Deddf Cynulliad,

benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol.

Diddymu, dirymu ac ailddeddfu deddfwriaeth

31 Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer pethau sydd wedi eu diddymu nac sydd wedi eu dirymu

Pan fo—

- (a) Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ("A") yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad ("B"), a
- (b) B eisoes wedi diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad arall ("C"),

nid yw diddymiad na dirymiad B yn adfer C, oni bai bod A yn darparu'n benodol i C gael ei adfer.

32 Arbedion cyffredinol

Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, nid yw'r diddymiad na'r dirymiad—

- (a) yn adfer unrhyw beth arall (gan gynnwys unrhyw reol gyfreithiol) nad yw mewn grym neu mewn bod ar yr adeg pan fydd y diddymiad neu'r dirymiad yn cymryd effaith;
- (b) yn effeithio ar weithrediad blaenorol y deddfiad neu unrhyw beth a wneir neu a oddefir o dan y deddfiad;
- (c) yn effeithio ar unrhyw hawl, braint, rhwymedigaeth neu atebolrwydd a geir, a gronnir neu yr eir iddi neu iddo o dan y deddfiad;
- (d) yn effeithio ar unrhyw gosb, fforffediad neu gosbedigaeth a osodir mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y deddfiad;
- (e) yn effeithio ar unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi mewn cysylltiad ag unrhyw hawl, braint, rhwymedigaeth, atebolrwydd, cosb, fforffediad neu gosbedigaeth o'r fath;

a chaniateir cychwyn, parhau neu orfodi unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi o'r fath, a gosod unrhyw gosb, fforffediad neu gosbedigaeth o'r fath, fel pe na bai'r diddymiad na'r dirymiad wedi digwydd.

33 Ailddeddfu

(1) Pan fo deddfiad ("A")—

- (a) yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, a
- (b) yn cael ei ailddeddfu (gydag addasiadau neu hebddynt) gan Ddeddf Cynulliad neu gan is-offeryn Cymreig,

mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad arall at A i'w ddarllen fel (neu fel pe bai'n cynnwys) cyfeiriad at y deddfiad sy'n ailddeddfu A ("B").

- (2) I'r graddau y gallasai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan A, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan A gael ei gwneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan B.
- (3) I'r graddau y gallasai unrhyw beth a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan A gael ei gwneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan B.
- (4) Yn is-adran (1) mae'r cyfeiriad at "unrhyw ddeddfiad arall" yn cynnwys unrhyw weithred neu offeryn neu ddogfen arall.

34 Cyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu

Caniateir parhau i gyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl yr enw byr a roddir iddi gan ddeddfiad er i'r deddfiad hwnnw gael ei diddymu.

Darpariaeth atodol

35 Dehongli'r Rhan

- (1) Yn y Rhan hon—

ystyr "Deddf Cynulliad" (*"Assembly Act"*) yw Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ac mae'n cynnwys y Ddeddf hon);

mae i "deddfwriaeth Gogledd Iwerddon" (*"Northern Ireland legislation"*) yr un ystyr ag a roddir i "Northern Ireland legislation" yn Neddf Dehongli 1978 (*Interpretation Act 1978 (c. 30)*) (gweler adran 24(5) o'r Ddeddf honno);

ystyr "Mesur Cynulliad" (*"Assembly Measure"*) yw Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- (2) At ddibenion y Rhan hon—

- (a) mae diddymu neu ddirymu deddfiad yn cynnwys—

- (i) newid effaith y deddfiad drwy amnewid y deddfiad (neu raniad o'r deddfiad),
- (ii) cyfyngu ar effaith y deddfiad, a
- (iii) darparu i'r deddfiad beidio â chael effaith;

- (b) pan ddaw Deddf Cynulliad dros dro neu is-offeryn Cymreig dros dro i ben mae hynny i'w drin—

- (i) yn achos Deddf Cynulliad dros dro, fel pe bai wedi ei diddymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig;
- (ii) yn achos is-offeryn Cymreig dros dro, fel pe bai wedi ei ddirymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.

36 Deddf Dehongli 1978

Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer diwygio Deddf Dehongli 1978 (*Interpretation Act 1978 (c. 30)*).

RHAN 3**DARPARIAETH AMRYWIOL****37 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, cânt drwy reoliadau wneud –

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol, a

(b) unrhyw ddarpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon).

38 Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad –

(a) rheoliadau o dan adran 5(2);

(b) rheoliadau o dan adran 37(1) sy'n diwygio, diddymu neu'n addasu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

39 Y Ddeddf hon yn dod i rym

(1) Daw'r Rhan hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw Rhan 1 i rym ddau fis ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(3) Daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

(4) O ran gorchymyn o dan is-adran (3) –

(a) rhaid ei wneud drwy offeryn statudol;

(b) caiff gynnwys ddarpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed;

(c) caiff ddiwygio adran 3 ac Atodlen 2 er mwyn rhoi cyfeiriadau at y dyddiad a benodir gan y gorchymyn yn lle cyfeiriadau sy'n ymwneud â'r diwrnod y daw Rhan i rym;

(d) caiff benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

40 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2020.

ATODLEN 1
(Cyflwynwyd gan adran 5)

DIFFINIADAU O EIRIAU AC YMADRODDION

5	anfon i sefyll prawf (<i>sent for trial</i>)	ystyr “anfon i sefyll prawf” yw anfon gan lys ynadon i Lys y Goron i sefyll prawf yn unol ag adran 51 neu 51A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (<i>Crime and Disorder Act 1998 (c. 37)</i>)
	Arglwydd Ganghellor (<i>Lord Chancellor</i>)	ystyr yr “Arglwydd Ganghellor” yw Arglwydd Uchel Ganghellor Prydain Fawr
10	Awdurdod Cyllid Cymru (<i>Welsh Revenue Authority</i>)	ystyr “Awdurdod Cyllid Cymru” yw’r awdurdod a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)
15	Banc Lloegr (<i>Bank of England</i>)	ystyr “Banc Lloegr”, yn unol â gofynion y cyd-destun, yw – (a) Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr, neu (b) banc Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr
	blwyddyn ariannol (<i>financial year</i>)	ystyr “blwyddyn ariannol” yw blwyddyn sy’n gorffen ar 31 Mawrth
20	Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (<i>National Assembly for Wales Commission</i>)	ystyr “Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru” yw’r Comisiwn a sefydlwyd o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006 (c. 32)</i>)
	Cwnsler Cyffredinol (<i>Counsel General</i>)	ystyr “Cwnsler Cyffredinol” yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, a benodir o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006</i>)
25	y Cyfrin Gyngor (<i>the Privy Council</i>)	ystyr “y Cyfrin Gyngor” yw’r Arglwyddi ac eraill o Dra Anrhydeddus Gyfrin Gyngor Ei Mawrhydi
30	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (<i>Her Majesty’s Revenue and Customs</i>)	mae i “Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi” yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 (<i>Commissioners for Revenue and Customs Act 2005 (c. 11)</i>)

	Cymru (Wales)	mae i "Cymru" yr ystyr sydd i "Wales" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006 (c. 32)</i>) (gweler adran 158 o'r Ddeddf honno)
5	Cynulliad Cenedlaethol Cymru (<i>National Assembly for Wales</i>)	ystyr "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yw'r Cynulliad ar gyfer Cymru a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006</i>)
10	cytundeb yr AEE (<i>EEA agreement</i>)	ystyr "cytundeb yr AEE" yw'r cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992, ynghyd â'r Protocol sy'n amrywio'r Cytundeb hwnnw a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993, fel y'i haddesir neu yr ychwanegir ato o bryd i'w gilydd
	datganiad statudol (<i>statutory declaration</i>)	ystyr "datganiad statudol" yw datganiad a wneir yn rhinwedd Deddf Datganiadau Statudol 1835 (<i>Statutory Declarations Act 1835 (c. 62)</i>)
15	y Deyrnas Unedig (<i>United Kingdom</i>)	ystyr "y Deyrnas Unedig" yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon
20	diwrnod gwaith (<i>working day</i>)	ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (<i>Banking and Financial Dealings Act 1971 (c. 80)</i>)
	Goruchaf Lys (<i>Supreme Court</i>)	ystyr y "Goruchaf Lys" yw Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig (gweler adran 23 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (<i>Constitutional Reform Act 2005 (c. 4)</i>))
25	graddfa safonol (<i>standard scale</i>)	mae "graddfa safonol", wrth gyfeirio at ddirwy neu gosb am drosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond yn ddiannod, i'w ddehongli yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (<i>Criminal Justice Act 1982 (c. 48)</i>) ac adran 85 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (<i>Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012 (c. 10)</i>)
30		

Gweinidogion Cymru (<i>Welsh Ministers</i>)	mae "Gweinidogion Cymru" i'w ddehongli yn unol ag adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006 (c. 32)</i>) (a gweler adran 45(2) o'r Ddeddf honno, sy'n darparu bod cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog)
5 gwladwriaeth AEE (<i>EEA state</i>)	ystyr "gwladwriaeth AEE", mewn perthynas ag unrhyw bryd, yw – (a) gwladwriaeth sydd ar y pryd yn Aelod-wladwriaeth, neu (b) unrhyw wladwriaeth arall sydd ar y pryd yn barti i gytundeb yr AEE
10 Lloegr (<i>England</i>)	mae i "Lloegr" yr ystyr a roddir i "England" yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 (<i>Interpretation Act 1978 (c. 30)</i>)
15 llw (<i>oath</i>), affidafid (<i>affidavit</i>), a tyngu llw (<i>swear</i>)	mae "llw" ac "affidafid" yn cynnwys cadarnhad a datganiad; ac mae "tyngu llw" yn cynnwys cadarnhau a datgan
20 Llys Apêl (<i>Court of Appeal</i>)	ystyr "Llys Apêl" – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Llys Apêl Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Llys Apêl Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon
25 30 Llys y Goron (<i>Crown Court</i>)	ystyr "Llys y Goron" – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Llys y Goron a sefydlwyd yn wreiddiol gan adran 4 o Ddeddf y Llysoedd 1971 (<i>Courts Act 1971 (c. 23)</i>) (diddymwyd yr adran honno wedyn gan Ddeddf Uwchlysoedd 1981 (<i>Senior Courts Act 1981 (c. 54)</i>); (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Llys y Goron a sefydlwyd gan adran 4 o Ddeddf Barnweiniaeth (Gogledd Iwerddon) 1978 (<i>Judicature (Northern Ireland) Act 1978 (c. 23)</i>)

5 llys sirol (<i>county court</i>)	ystyr “llys sirol” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw’r llys sirol a sefydlwyd o dan adran A1 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984 (<i>County Courts Act 1984 (c. 28)</i>); (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw’r llys a gynhelir ar gyfer adran o dan Orchymyn Llysoedd Sirol (Gogledd Iwerddon) 1980 (<i>County Courts (Northern Ireland) Order 1980 (No. 397 (N.I. 3))</i>)
10 15 llys ynadon (<i>magistrates’ court</i>)	mae i “llys ynadon” yr ystyr a roddir – (a) o ran Cymru a Lloegr, i “magistrates’ court” gan adran 148 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (<i>Magistrates’ Courts Act 1980 (c. 43)</i>); (b) o ran Gogledd Iwerddon, i “magistrates’ court” gan erthygl 2(2) o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981 (<i>Magistrates’ Courts (Northern Ireland) Order 1981 (No. 1675 (N.I. 26))</i>)
20 Llywodraeth Cymru (<i>Welsh Government</i>)	mae “Llywodraeth Cymru” i’w ddehongli yn unol ag adran 45(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru (<i>Government of Wales Act 2006 (c. 32)</i>)
20 mis (<i>month</i>)	ystyr “mis” yw mis calendr
person (<i>person</i>)	mae “person” yn cynnwys corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol
25 Prif Weinidog (<i>First Minister</i>)	mae “Prif Weinidog” i’w ddehongli yn unol ag adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (<i>Government of Wales Act 2006</i>) (a gweler adran 45(2) o’r Ddeddf honno, sy’n darparu bod cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog)

	rheolau llys (<i>rules of court</i>)	ystyr “rheolau llys” mewn perthynas ag unrhyw lys yw rheolau a wneir gan yr awdurdod a chanddo’r pŵer i wneud rheolau neu orchmynion sy’n rheoleiddio arferion a threfniadaeth y llys hwnnw
5	tir (<i>land</i>)	mae “tir” yn cynnwys adeiladau a strwythurau eraill, tir a orchuddir â dŵr, ac unrhyw ystad, buddiant, hawddfrait, gwasanaethfrait, hawl mewn tir neu hawl dros dir
	Tribiwnlys Cymreig (<i>Welsh Tribunal</i>)	mae i “Tribiwnlys Cymreig” yr ystyr a roddir i “Welsh Tribunal” yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 (<i>Wales Act 2017 (c. 4)</i>)
10	trosedd ddiannod (<i>summary offence</i>)	ystyr “trosedd ddiannod” yw trosedd, os y’i cyflawnir gan oedolyn, na ellir ei rhoi ar brawf ond yn ddiannod; ac mae effaith adran 22 (os oes iddi effaith) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (<i>Magistrates’ Courts Act 1980 (c. 43)</i>) (troseddau penodol i’w rhoi ar brawf yn ddiannod os yw’r gwerth sydd ynghlwm yn fach) ar ddull y treial i’w hanwybyddu wrth ddehongli’r diffiniad hwn
15		
	trosedd dditiadwy (<i>indictable offence</i>)	ystyr “trosedd dditiadwy” yw trosedd, os y’i cyflawnir gan oedolyn, y gellir ei rhoi ar brawf ar dditiad yn unig, neu y gellir ei rhoi ar brawf naill ai ar dditiad neu’n ddiannod; ac mae effaith adran 22 (os oes iddi effaith) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (<i>Magistrates’ Courts Act 1980</i>) (troseddau penodol i’w rhoi ar brawf yn ddiannod os yw’r gwerth sydd ynghlwm yn fach) ar ddull y treial i’w hanwybyddu wrth ddehongli’r diffiniad hwn
20		
	trosedd neillfordd (<i>offence triable either way</i>)	ystyr “trosedd neillfordd” yw trosedd, ac eithrio trosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond ar dditiad yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (<i>Criminal Justice Act 1988 (c. 33)</i>), y gellir, os y’i cyflawnir gan oedolyn, ei rhoi ar brawf naill ai ar dditiad neu’n ddiannod; ac mae effaith adran 22 (os oes iddi effaith) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (<i>Magistrates’ Courts Act 1980 (c. 43)</i>) (troseddau penodol i’w rhoi ar brawf yn ddiannod os yw’r gwerth sydd ynghlwm yn fach) ar ddull y treial i’w hanwybyddu wrth ddehongli’r diffiniad hwn
25		
30		

	y Trysorlys (<i>the Treasury</i>)	ystyr “y Trysorlys” yw Comisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi
5	yr UE (<i>the EU</i>), y Cytuniadau (<i>the Treaties</i>), Cytuniadau’r UE (<i>the EU treaties</i>), offeryn gan yr UE (<i>EU instrument</i>), ac ymadroddion Cymraeg eraill y diffinnir gan adran 1 o’r Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac Atodlen 1 iddi	mae i “yr UE”, “y Cytuniadau”, “Cytuniadau’r UE”, “offeryn gan yr UE” yr ystyron a roddir i “the EU”, “the Treaties”, “the EU Treaties” ac “EU instrument” gan adran 1 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (<i>European Communities Act 1972 (c. 68)</i>) ac Atodlen 1 iddi ac mae i ymadroddion Cymraeg eraill sy’n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddiffinnir yn adran 1 o’r Ddeddf honno ac Atodlen 1 iddi yr ystyron a roddir gan y Ddeddf honno
15	Uchel Lys (<i>High Court</i>)	ystyr yr “Uchel Lys” – (a) o ran Cymru a Lloegr, yw Uchel Lys Barn Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr; (b) o ran Gogledd Iwerddon, yw Uchel Lys Barn Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon
20	Uwchlysoedd (<i>Senior Courts</i>)	ystyr “Uwchlysoedd” yw Uwchlysoedd Cymru a Lloegr (gweler adran 1 o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 (<i>Senior Courts Act 1981 (c. 54)</i>))
25	ysgrifennu (<i>writing</i>)	mae “ysgrifennu” yn cynnwys teipio, argraffu, lithograffi, ffotograffiaeth a dulliau eraill o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy, ac mae ymadroddion sy’n cyfeirio at ysgrifennu i’w dehongli yn unol â hynny
	Ysgrifennydd Gwladol (<i>Secretary of State</i>)	ystyr “Ysgrifennydd Gwladol” yw un o Brif Ysgrifenyddion Gwladol Ei Mawrhydi

ATODLEN 2
(Cyflwynwyd gan adran 36)

DIWYGIO DEDDF DEHONGLI 1978

5 Yn lle adran 23B o Ddeddf Dehongli 1978 (*Interpretation Act 1978 (c. 30)*) (cymhwysó'r Ddeddf at Fesurau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Deddfau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru etc.) rhodder –

“23B Application to Welsh law existing before Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 comes into force

10 (1) The provisions of this Act apply to –

- (a) a Measure of the National Assembly for Wales (an “Assembly Measure”), and
- (b) an Act of the National Assembly for Wales which received Royal Assent before the day on which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 (interpretation of Welsh legislation) comes into force (an “Assembly Act”),

15 as they apply to an Act, save that sections 1 to 3 do not apply to an Assembly Measure or Assembly Act (and section 4(b) does not apply to an Assembly Measure).

20 (2) The provisions of this Act also apply to an instrument –

- (a) made under an Assembly Measure or Assembly Act, and
- (b) made before the day on which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 comes into force,

as they apply to other subordinate legislation.

25 (3) The provisions of this Act apply to an instrument made under an Act of Parliament by the Welsh Ministers only if the instrument was made before the day on which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 comes into force.

30 (4) In the application of this Act to an Assembly Measure or Assembly Act, references to the passing of an Act or an enactment are to be read as references to the enactment of the Assembly Measure or Assembly Act.

23C Operation of this Act in relation to Welsh law

35 (1) In this Act, references to an enactment include an enactment comprised in –

- (a) a Measure of the National Assembly for Wales;
- (b) an Act of the National Assembly for Wales (regardless of when the Act received Royal Assent);

- (c) an instrument made under such an Act or Measure (whenever made);
- (d) an instrument made under an Act of Parliament by the Welsh Ministers (whenever made),

5 but the reference in section 16(2) to a temporary enactment does not include an enactment comprised in legislation to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 applies (see section 3 of that Act).

(2) Section 11 does not apply in relation to an instrument to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 applies.

10 (3) In section 17(2)(b), the reference to subordinate legislation includes an instrument to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 applies.

(4) In section 18, the reference to an act or omission which constitutes an offence under two or more Acts includes an act or omission which constitutes an offence under—

15 (a) any legislation to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 applies, and

(b) any legislation to which section 18 applies,

whether or not the act or omission is also an offence at common law; and the second reference in section 18 to “Acts” is to be read accordingly.

20 (5) In section 19(1), references to “another Act” include—

(a) any Measure of the National Assembly for Wales, and

(b) any Act of the National Assembly for Wales (regardless of when the Act received Royal Assent),

25 and the reference in paragraph (c) to “Acts” is to be read accordingly.

(6) Nothing in the Legislation (Wales) Act 2020 affects the operation of sections 12 to 14A in relation to a power or duty to make an instrument to which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2020 applies.”